# Polisi Gwisg Ysgol

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG
# Y LOGIN FACH

*Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.*

Polisi Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach yw bod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol wrth fynychu'r ysgol neu wrth fynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bob plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan o ymroddiad yr ysgol tuag at gyfle cyfartal a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu â Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.
Mae'r wisg fel a ganlyn:

**GWISG FFURFIOL**

- Trowsus du
- Sgert ddu
- Siwmper goch gyda logo ysgol
- Crys polo ysgol coch
- Esgidiau du

**GWISG HAF**

- Ffrog gingham coch
- Trowsus byr du wedi'u teilwra

**SIWTIAU LONCIAN**
Er mwyn bod yn gyfforddus gall y plant wisgo trwser loncian du.

**ESGIDIAU**
Mae'n bwysig bod eich plentyn yn gwisgo esgidiau priodol i'r ysgol yn ddyddiol. Mae esgidiau ysgafn neu esgidiau â sodlau uchel yn gallu gwneud niwed i'w traed, ac yn gallu achosi damweiniau. Gofynnwn i ddisgyblion wisgo esgidiau du; serch hynny, byddwn yn derbyn treinyrs os ydynt yn hollol ddu a heb unrhyw logos lliwgar arnynt.

**STEIL GWALLT EITHAFOL**
Ni chaniateir i blant dorri neu liwio gwallt mewn ffordd eithafol. Nid yw lliwio gwallt yn rhan o wisg Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

**POLISI GWISGO GEMWAITH**

Mae llywodraethwyr yr ysgol wedi cytuno nad yw'n briodol blant wisgo gemwaith yn yr ysgol. Caniateir i blant wisgo oriawr a styd fel clustlws. Ni chaniateir i blant wisgo unrhyw fath arall o glustlws, modrwyon, mwclis nag addurn ar yr arddwrn. Rhaid sicrhau hefyd bod clustlysau yn cael eu tynnu allan neu eu gorchuddio yn ystod gwersi ymarfer corff.

**ENWAU AR DDILLAD / DILLAD COLL**

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gydag enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau addysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

Ni ddylai enwau llawn disgyblion cael eu brodio ar wisg ysgol oherwydd rhesymau diogelwch. Serch hynny, mae brodio a llythrennau cyntaf enw a chyfenw yn dderbyniol.

Mae'r wisg ar gael o:

JS Sports
74 Tycoch Road,
Abertawe
SA2 9EQ
Tel: 01792 206658
www.theschooluniformshop.com

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Oso es rhesymau crefyddol yn gofyn I blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

Gofynnwn i bob rhiant/gwarchodwr gefnogi'r polisi gwisg ysgol gan ei fod yn bwysig i bob plentyn gyrraedd yr ysgol mewn gwisg ysgol addas ac yn barod ar gyfer diwrnod o waith. Os oes unrhyw resymau teilwng megis gwrthwynebiadau crefyddol pan fo rhiant neu warcheidwr am i'w plentyn wisgo dillad gwahanol i'r wisg ysgol, edrycha'r ysgol yn gydymdeimladol ar unrhyw geisiadau.

**GRANTIAU**

Defnyddiwch y safwe isod i weld os allwch hawlio grant.
***https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad***

*Cytunwyd y polisi ar: 3 1 / 3 / 2 0 2 5*
*Arwyddwyd:*
*Arwyddwyd:*
*Dyddiad adolygu:*